

Pwysu yn yr Awyr Agored

Mae llawer o wahanol agweddau o fewn y profiad hwn yn yr awyr agored ac mae modd eu teilwra i allu a datblygiad y plant rydych chi'n eu haddysgu. Gweler isod rai o'r profiadau y gellir eu hystyried:

Allwch chi ddefnyddio'r darnau rhydd i greu clorian cydbwysu fawr? Edrychwch ar glorian lai a gweld a allwch ail-greu un fwy, gan ddefnyddio'r eitemau mawr sydd yn eich ardal awyr agored. Rhan bwysig o'r weithgaredd hwn yw bod y plant yn cael cyfle i greu'r glorian eu hunain, gan ddatrys problemau fel sut y bydd yn gweithio a beth sydd angen ei osod ymhle. Recordiwch fideos o'r plant yn creu clorian gan ei fod adlewyrchu ac yn dangos eu dealltwriaeth o gydbwysedd a phwysu.

Efallai y byddwch am ddefnyddio adnoddau eraill yn yr ardal awyr agored. Allwch chi chwilio am eitemau yn yr ystafell ddosbarth awyr agored i'w pwysu gan ddefnyddio mesurau ansafonol. Gallwch gofnodi'r hyn yr ydych yn ei bwysu a'u cydbwysu, ee mae dwy garreg yn pwysu'r un faint ag un boncyff. Defnyddiwch fyrddau gwyn bach i gofnodi ac ymarfer ffurfio rhifau, ee 2 garreg = 1 boncyff gan eu rhoi ar y glorian a thynnu llun ohono fel cofnod.

Gall y plant hefyd gasglu eitemau i'w pwysu ar y glorian. Gallent raddio a chreu darpariaeth o'r cerrig sydd ar gael, ee fesul pwysau mewn Kg a gram. Yna gallent eu defnyddio mewn gweithgareddau pwysu i bwysu eitemau eraill o'u cymharu gyda'r cerrig.

Gellir gosod heriau i'r plant ddod o hyd i eitem yn yr awyr agored sy'n pwysu yr un faint yn union, pwysu yn fwy (trymach) neu bwysu yn llai (ysgafnach) na phwysau penodol. Mae clorian hen ffasiwn fel yr un sydd yn y llun yn wych ar gyfer y math hwn o weithgaredd pwysu a gellir eu defnyddio gyda'r cerrig sydd wedi'u graddio.

Gallech hefyd ofyn i blant hŷn bwysu eu hunain gan ddefnyddio clorian ystafell ymolchi ac yna casglu eitemau mewn bag sydd yr un pwysau a nhw neu gan ddefnyddio clorian bagiau teithio (luggage scales) Mae hyn yn rhoi syniad real o bwysau i blant yn eu cyd-destun eu hunain.

Ar ôl addysgu'r plant sut i bwysu neu gydbwysu eitemau gellir cymhwysu'r hyn a ddysgwyd i weithgareddau eraill yn seiliedig ar weithgareddau datrys problemau. Efallai fod angen creu lifft a fydd yn dal pwysau penodol neu bont a fydd yn gallu dal pwysau penodol? Pan anogir plant i ddefnyddio pwysau yn gyson yr ardal awyr agored, ac os darperir yr adnoddau amrywiol iddynt wneud eu dewisiadau, gall plant datblygu'n hyfedr yn y sgiliau hynny o ymresymu'n rhifyddol.

Byddwn yn datblygu'r thema pwysu o fewn Gweithgareddau a Phrofiadau'r Nadolig. Gellir ymarfer y sgiliau mewn llawer o wahanol gyd-destunau, a dyna sy'n hollbwysig wrth ddatblygu sgiliau, eu bod wedyn yn gallu eu trosglwyddo, eu defnyddio a'u cymhwysu o fewn gweithgareddau eraill a hynny'n annibynnol,